

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU – LEFELAU SGILIAU CYMRAEG

Maes iaith	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Gwrando / Siarad:	Medru ynganu enwau Cymraeg yn gywir (yn cynnwys enwau cyntaf, cyfenwau ac enwau lleoedd). Medru cyfarch defnyddwyr y tribiwnlys yn ddwyieithog a dechrau a gorffen sgysiau'n ddwyieithog gan ddefnyddio ymadroddion syml wedi'u hymarfer.	Medru deall sgwrs Gymraeg ar gyflymder cymedrol a medru gwneud cyfraniad achlysurol. Medru gwneud datganiadau sylfaenol byr a gofyn cwestiynau syml.	Medru deall a chymryd rhan mewn sgysiau Cymraeg. Medru cynnig ymateb i ymholiadau ond gallai orfod defnyddio termau Saesneg yn achlysurol.	Medru cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd. Medru deall gwahanol acenion a thonau; medru dadlau o blaid ac yn erbyn syniad neu safiad; medru gofyn ac ateb cwestiynau manwl.	Medru cyfrannu'n rhugl, gyda hyder, ar bob agwedd o fusnes y sefydliad a mynegi barn gymhleth yn glir ac heb oedi. Medru cyfieithu'n effeithiol ar gyfer eraill.
Darllen:	Medru deall arwyddion a labeli byr yn y gweithle. Medru deall ymadroddion ysgrifenedig byr iawn eraill a brawddegau byr iawn weithiau.	Medru deall swm arwyddocaol mewn dogfennau cryno o gael amser digonol a defnyddio pecynnau iaith.	Medru deall y rhan fwyaf o ohebiaeth a deunyddiau busnes eraill. Gall fod angen defnyddio pecynnau iaith ar gyfer geirfa lefel uchel neu dechnegol.	Medru deall gohebiaeth ffurfiol ac adroddiadau byr.	Medru deall dogfennau ffurfiol cymhleth.
Ysgrifennu:	Medru ysgrifennu enwau lleoedd ac enwau personol Cymraeg yn gywir. Medru cynnwys ymadroddion Cymraeg syml mewn negeseuon (e.e. mewn negeseuon e-bost, testun, nodiadau gludiog ac ati).	Medru ysgrifennu negeseuon ac e-bost cryno gan ddefnyddio brawddegau syml.	Medru ysgrifennu dogfennau byr a nodiadau gan ddefnyddio pecynnau iaith yn achlysurol.	Medru cynhyrchu negeseuon e-bost a dogfennau arddull sgwrs, gramadegol gywir, gan ddefnyddio pecynnau iaith yn achlysurol. Medru cadw cofnodion ansawdd da mewn cyfarfodydd.	Medru cynhyrchu dogfennau ffurfiol i safon uchel iawn gyda defnydd isafswm pecynnau iaith. Medru cyfieithu'r hyderus ac yn gywir gan ddefnyddio'r arddull a'r tôn priodol.